TAFLEN BENDERFYNIAD AELOD CABINET
CABINET MEMBER'S DECISION NOTICE

PWNC/SUBJECT:

Canolfan Wybodaeth Llanberis, Mynydd Gwefru, LL55 4RU

Llanberis Information Centre, Electric Mountain, LL55 4RU

AELOD CABINET/CABINET MEMBER

Cynghorydd / Councillor Mandy Williams-Davies

PENDERFYNIAD/DECISION

Terfynu les Cyngor Gwynedd gyda First Hydro i'r perwyl o gau'r ddarpariaeth Canolfan Gwybodaeth gan Cyngor Gwynedd ar y safle.
Bydd y ddarpariaeth gwasanaeth darparu gwybodaeth yn cael ei ymgymryd yn y dyfodol gan HWB Eryri (CIC), yn ddibynnol ar gyrraedd cytundeb gyda perchnogion Mynydd Gwefru.

Terminating Gwynedd Council's lease with First Hydro for the purpose of closing the tourist information service provided by Gwynedd Council from the site.
The tourist information Service provision will be provided in future by HWB Eryri (CIC), subject to reaching an agreement with the owners of Electric Mountain.

RHESYMAU DROS Y PENDERFYNIAD/REASONS FOR THE DECISION

Yn dilyn adolygiad o'r gwasanaeth Canolfannau Croeso yn 2010/11, penderfynwyd adleoli Canolfan Groeso Llanberis o'r Stryd Fawr i ofod o fewn adeilad Mynydd Gwefru erbyn tymor 2012.
Cytunwyd prydles gyda'r perchnogion, First Hydro, i redeg o Fawrth 8fed, 2012 am gyfnod o bum mlynedd gyda rhent blynyddol o £2,300.

Oherwydd cyfyngiadau cyllidebol a'r rhaglen arbedion nid yw Cyngor Gwynedd eisoes mewn sefyllfa i staffio na gweithredu Canolfan Wybodaeth Llanberis i'r dyfodol.

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae Gwasanaeth Twristiaeth, Marchnata a Gofal Cwsmer Cyngor Gwynedd, Partneriaeth Llanberis, Mynydd Gwefru a HWB Eryri, wedi ymgynghori er mwyn edrych ar a thrafod gwahanol opsiynau i ddiogelu dyfodol y gwasanaeth darpariaeth gwybodaeth yn Llanberis.

Yn sgil y trafodaethau yma mi fynegwyd diddordeb gan grŵp cymdeithasol HWB Eryri (CIC) i gymryd trosodd a rhedeg y ganolfan. Maent eisoes wedi sefydlu eu hunain fel cwmni cyfyngedig trwy warant. Wrth gynnal y gwasanaeth bydd y ganolfan yn parhau i hyrwyddo atyniadau, llety, busnesion a gwasanaethau lleol, ac o ganlyniad, bydd gwaith yr HWB yn uchafu buddiannau economaidd yr holl gymuned.

I'r diben yma, cyflwynodd yr HWB cais am arian i Fantell Gwynedd a Chist Gwynedd ar 5.10.15 i weithredu'r ddarpariaeth dros gyfnod o dair blynedd. Derbyniwyd cymeradwyaeth i'r cais ond mae'r cynnig yn amodol ar dderbyn gwybodaeth bellach gan y cwmni.
Mae'r cyfnod grant yn rhedeg o Hydref 2015 hyd at Fawrth 2016, ac yna, am ddwy flynedd arall hyd at Fawrth 2018, yn ddibynnol ar barhad gronfa Cist Gwynedd.

Yn ystod cwrdd ddiweddar i drafod y ddarpariaeth gwybodaeth a'r les efo Diane Rowlands, Rheolwr Mynydd Gwefru, awgrymodd ein bod yn rhoi rhybudd i derfynu'r les gyda First Hydro cyn gynted â phosib, gan na fyddwn mewn sefyllfa i fod yn staffio na gweithredu allan o'r gofod blwyddyn nesaf. Hefyd, ni all First Hydro gychwyn trafodaethau tenantiaeth gyda HWB Eryri tan mae Cyngor Gwynedd yn rhoi rhybudd i derfynu'r les. Yn anffodus, nid oes modd trosglwyddo'r denantiaeth i'r HWB.

Following a review of the Tourist Information Centres' service in 2010/11, it was decided to re-locate the Tourist Information Centre in Llanberis from the High Street to a space within the Electric Mountain building by the 2012 season.
An agreement on a lease was reached with the owners, First Hydro, to run from 8 March 2012 for a period of five years with an annual rent of £2,300.

Due to financial constraints and the savings programme, Gwynedd Council is not in a position to staff or operate Llanberis' Information Centre in future.

During the past year, Gwynedd Council's Tourism, Marketing and Customer Care Service, Llanberis Partnership, Electric Mountain and HWB Eryri have consulted in order to examine and discuss different options to safeguard the future of the information provision service in Llanberis.

In light of these discussions, an interest was expressed by the HWB Eryri (CIC) social group to take over and run the centre. They have already established themselves as a company limited by guarantee. By maintaining the service, the centre will continue to promote local attractions, accommodation, businesses and services, and as a result, the HWB's work will maximise the economic benefits of the entire community.

To this end, the HWB submitted an application to Mantell Gwynedd and Cist Gwynedd for funding on 5.10.15 to implement the provision for a period of three years.
The application was approved but the proposal is subject to receiving further information from the company.
The grant period runs from October 2015 until March 2016, and then for another two years until March 2018, subject to the continuation of the Cist Gwynedd fund.

During a recent meeting to discuss the information provision and lease with Diane Rowlands, Electric Mountain Manager, she suggested that we submit a notice to terminate the lease with First Hydro as soon as possible, as we will

not be in a position to staff or operate from the space next year. Also, First Hydro cannot commence tenancy discussions with HWB Eryri until Gwynedd Council has submitted a notice to terminate the lease. Unfortunately, it is not possible to transfer the tenancy to HWB.

YSTYRIAETHAU PERTHNASOL/ RELEVANT CONSIDERATIONS

Mae parhad o'r adnodd gwybodaeth yn Llanberis yn hanfodol i'r ardal a'r gymuned wrth ystyried pwysigrwydd y sector dwristiaeth i'r economi leol, agosrwydd y ganolfan i'r Wyddfa a Pharc Cenedlaethol Eryri a'r twf yn y sector gweithgareddau awyr agored.
Trwy gynnal y gwasanaeth bydd y ganolfan yn parhau i hyrwyddo atyniadau, llety, busnesion a gwasanaethau lleol. O ganlyniad, bydd gwaith yr HWB yn cyfrannu tuag at budd economaidd yr holl gymuned.

Continuation of the information source in Llanberis is essential to the area and community when considering the importance of the tourism sector for the local economy, the proximity of the centre to Snowdon and the Snowdonia National Park and growth in the outdoor activities sector.
By maintaining the service, the centre will continue to promote local attractions, accommodation, businesses and services. As a result, the HWB's work will maximise the economic benefits of the entire community.

BARN Y SWYDDOGION STATUDOL/VIEWS OF STATUTORY OFFICERS

1. Y Prif Weithredwr/Chief Executive:-

"Mae'r argymhelliad hwn yn un synhwyrol a chall yn yr amgylchiadau."
"The recommendation is sensible and prudent under the circumstances."

2. Swyddog Monitro/ Monitoring Officer:-

"Dim sylwadau i'w hychwanegu o safbwynt priodoldeb."
"No observations to add with regards to propriety."

3. Prif Swyddog Cyllid/Chief Finance Officer:-

"Fel mae'r daflen yn nodi, bydd arbedion ariannol yn deillio. Felly rwy'n cefnogi'r penderfyniad."
"As this report notes, financial savings will be realised. I therefore support the decision."

BARN YR AELOD LLEOL/VIEW OF LOCAL MEMBER

Mae'r Aelod Lleol wedi bod yn ran o drafodaethau ar ddyfodol y safle ac yn ymwybodol o gynlluniau Hwb Eryri.

The local member has been part of discussions on the future of the site and is aware of Hwb Eryri's proposals.

LLOFNOD /SIGNED

M Wilkes - Davies

DYDDIAD/DATE

27.1.16